Funded by UK Government

# Action Plan Fact Sheet

## Are you unsure how to find out what your community wants or needs?

## Do you have ideas for projects but you're not sure where to start?

Reach can help you find answers to questions like these and help you focus your efforts to set goals for the long term in an Action Plan.

Reach is a resilient planning programme in Bridgend County. One of our aims is to help community groups like yours develop local priorities and form them into workable action plans. This guide is here to outline the process.

## Action Plans

An action plan should contain a wide range of opinions and include specific actions that can be taken forward.

Your plan might tackle a wide range of issues that are important to your community or to achieve a common goal – for example, improving a local green space, taking over a community building, reducing antisocial behaviour or developing a five-year plan for a Town or Community council.

Reach can support you in developing your plan, by enlisting professional services to carry out research, community consultation and working with your organisation to incorporate the outcomes into a full action plan.

## Key steps for developing an Action Plan

**1 Planning**
Assemble a planning group with members of your community to steer the process in the right direction.

**2 Research**
Investigate what information and research is already available to avoid repetition, making sure other relevant organisations and council departments are involved too.

**3 Community consultation**
Talk to as many people as possible about what should go into the action plan. Good consultation is essential to make sure that there is enough support for the plan within your community.

**4 Preparing for action**
After gathering all the information from the consultation, the key actions and issues should now begin to appear. The action plan will then reflect the main priorities identified.

**5 Fully costed development plan**
The action plan will include how long the activities set out might take to achieve, how much they would cost and whether they are realistic and achievable actions. An action plan will include a fully costed development plan for the actions, with details of potential funding sources that could help deliver the projects.

**6 Forming a plan**
All the research, consultation, priorities and development plan will come together in a draft action plan. This should be circulated to all the people and organisations that you have consulted with so far, to ask for their feedback.

**7 Finalise the plan**
Once feedback has been collected and any amendments made, the plan can be agreed and published.

**8 Launch**
Launch the plan and publicise it widely. Send copies to relevant authorities and those you have worked with. Make sure the plan is available to all members of the community.

**9 Stick to the plan**
Now put your plan into action. Your community group should be meeting regularly, to make sure you are keeping to your planned activities. Break your activities down into smaller tasks if it helps and try to complete them to the agreed deadlines.

Write your applications for funding giving as much detail as possible. Simply having an action plan will help funders see that there is local community support for the project before they make their decision.

**10 We love it when a plan comes together!**
Monitor and review your plan as you go along. You may want to evaluate it after a year or so, to see if it has achieved what you had hoped and whether it still meets your community's needs.

There may be new projects ideas coming forward. Make sure you celebrate and publicise your successes. It helps with new funding applications if you can show that you have successfully managed projects before.

Reach is developing case studies of good practice. Maybe your action plan could be used to show other community groups how it can be done!

To get started on your action plan, get in touch with us or visit the website:

**Email: reach@bridgend.org.uk**
**Tel: 01656 815080**
**Website: www.bridgendreach.org.uk**

This project is funded by the UK government through the UK Shared Prosperity Fund

reach CYMUNEDAU GWYDN RESILIENT COMMUNITIES

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr BRIDGEND County Borough Council

POWERED BY LEVELLING UP

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

# Taflen Ffeithiau Cynllun Gweithredu

## Ydych chi'n ansicr sut i ddarganfod beth mae eich cymuned ei eisiau neu ei angen?

## Oes gennych chi syniadau ar gyfer prosiectau ond ddim yn siŵr ble i ddechrau?

Gall Reach eich helpu i ddod o hyd i atebion i gwestiynau fel y rhain a'ch helpu i ganolbwyntio'ch ymdrechion ar osod nodau tymor hir mewn Cynllun Gweithredu.

Mae Reach yn rhaglen gynllunio wydn yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Un o'n nodau yw helpu grwpiau cymunedol fel eich grŵp chi i ddatblygu blaenoriaethau lleol a'u ffurfio'n gynlluniau gweithredu ymarferol. Mae'r canllaw hwn yma i amlinellu'r broses.

## Cynlluniau Gweithredu

Dylai cynllun gweithredu gynnwys ystod eang o safbwyntiau a chynnwys camau penodol y gellir eu cymryd.

Gallai eich cynllun fynd i'r afael ag ystod eang o faterion sy'n bwysig i'ch cymuned neu i gyflawni nod cyffredin – er enghraifft, gwella man gwyrdd lleol, cymryd adeilad cymunedol drosodd, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ddatblygu cynllun pum mlynedd ar gyfer Cyngor Tref neu Gymuned.

Gall Reach eich cefnogi i ddatblygu eich cynllun, trwy ymrestru gwasanaethau proffesiynol i wneud ymchwil, ymgynghori cymunedol a gweithio gyda'ch sefydliad i gynnwys eich canlyniadau mewn cynllun gweithredu llawn.

## Camau allweddol ar gyfer datblygu Cynllun Gweithredu

**1 Cynllunio**
Cynnull grŵp cynllunio gydag aelodau o'ch cymuned i lywio'r broses i'r cyfeiriad cywir.

**2 Ymchwilio**
Ymchwilio i ba wybodaeth ac ymchwil sydd eisoes ar gael i osgoi ailadrodd. Sicrhau bod sefydliadau perthnasol eraill ac adrannau'r cyngor yn cymryd rhan hefyd.

**3 Ymgynghori cymunedol**
Siarad â chynifer o bobl â phosibl am yr hyn y dylid ei gynnwys yn y cynllun gweithredu. Mae ymgynghori da yn hanfodol i wneud yn siŵr bod digon o gefnogaeth i'r cynllun o fewn eich cymuned.

**4 Paratoi i weithredu**
Ar ôl casglu'r holl wybodaeth o'r ymgynghoriad, dylai'r camau gweithredu a'r materion allweddol ddechrau ymddangos nawr. Bydd y cynllun gweithredu wedyn yn adlewyrchu'r prif flaenoriaethau a nodwyd.

**5 Cynllun datblygu wedi'i gostio'n llawn**
Bydd y cynllun gweithredu'n cynnwys faint o amser y gallai'r gweithgareddau a nodir ei gymryd i'w cyflawni, faint y byddent yn ei gostio ac a ydynt yn gamau gweithredu realistig a chyraeddadwy. Bydd cynllun gweithredu yn cynnwys cynllun datblygu wedi'i gostio'n llawn ar gyfer y camau gweithredu, gyda manylion ffynonellau cyllid posibl a allai helpu i gyflawni'r prosiectau.

**6 Ffurfio cynllun**
Bydd yr holl waith ymchwil, ymgynghori, blaenoriaethau a chynllun datblygu yn dod at ei gilydd mewn cynllun gweithredu drafft. Dylid dosbarthu hwn i'r holl bobl a sefydliadau rydych wedi ymgynghori â nhw hyd yn hyn, i ofyn am eu hadborth.

**7 Cwblhau'r cynllun**
Unwaith y bydd adborth wedi'i gasglu, ac unrhyw newidiadau wedi'u gwneud, gellir cytuno ar y cynllun a'i gyhoeddi.

**8 Lansio**
Lansiwch y cynllun a rhowch gyhoeddusrwydd eang iddo. Anfonwch gopïau at awdurdodau perthnasol a'r rhai rydych wedi gweithio gyda nhw. Sicrhewch fod y cynllun ar gael i bob aelod o'r gymuned.

**9 Cadw at y cynllun**
Nawr rhowch eich cynllun ar waith. Dylai eich grŵp cymunedol fod yn cyfarfod yn rheolaidd i wneud yn siŵr eich bod yn cadw at eich gweithgareddau arfaethedig. Rhannwch eich gweithgareddau yn dasgau llai os yw hynny'n helpu a cheisiwch eu cwblhau o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt.

Ysgrifennwch eich ceisiadau am gyllid gan roi cymaint o fanylion â phosibl. Yn syml, bydd cael cynllun gweithredu yn helpu cyllidwyr i weld bod cefnogaeth gymunedol leol i'r prosiect cyn iddynt wneud eu penderfyniad.

**10 Rydyn ni wrth ein bodd pan ddaw cynllun at ei gilydd!**
Sicrhewch eich bod yn monitro ac adolygu eich cynllun wrth i chi fynd yn eich blaen. Efallai y byddwch am ei werthuso ar ôl rhyw flwyddyn, i weld a yw wedi cyflawni'r hyn yr oeddech wedi'i obeithio ac a yw'n dal i ddiwallu anghenion eich cymuned.

Mae'n bosibl y bydd syniadau newydd am brosiectau yn cael eu cyflwyno. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dathlu ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'ch llwyddiannau. Mae'n helpu gyda cheisiadau cyllido newydd os gallwch ddangos eich bod wedi rheoli prosiectau'n llwyddiannus o'r blaen.

Mae Reach yn datblygu astudiaethau achos o arfer da. Efallai y gallai eich cynllun gweithredu gael ei ddefnyddio i ddangos i grwpiau cymunedol eraill sut mae llwyddo!

I ddechrau ar eich cynllun gweithredu, cysylltwch â ni neu ewch i'r wefan:

**E-bost: reach@bridgend.org.uk**
**Ffôn: 01656 815080**
**Gwefan: www.bridgendreach.org.uk**

Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

reach CYMUNEDAU GWYDN RESILIENT COMMUNITIES

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr BRIDGEND County Borough Council

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO